

PWYLLGOR CRAFFU'R CABINET

(CYFARFOD AML-LEOLIAD - SIAMBR Y CYNGOR PORT, TALBOT A
MICROSOFT TEAMS)

Aelodau sy'n Bresennol:

27 Mawrth 2024

Cadeirydd:	Cynghorydd P.Rogers
Cynghorwyr:	T.Bowen, C.Galsworthy, J.Henton, J.Jones, S.Paddison, S.Purse, S.H.Reynolds a/ac A.J.Richards
Swyddogion sy'n Bresennol:	N.Pearce, C.Griffiths, H.Jones, N.Daniel, S.Brennan, T.Davies, R.Headon, A.Thomas a/ac P.Chivers
Gwahoddedigion y Cabinet:	Cynghorwyr W.F.Griffiths, J.Hale, S.Harris, J.Hurley, N.Jenkins, A.Llewelyn a/ac C.Phillips

1. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Cadarnhawyd y byddai'r pwyllgor yn craffu ar eitem 6 a'r adroddiad brys preifat o agenda'r Cabinet.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau.

3. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 14 Chwefror 2024 fel cofnod gwir a chywir.

4. **CRAFFU CYN PENDERFYNU**

Adroddiad Blynyddol Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2022-2023

Dyweddodd y swyddogion wrth yr aelodau am y gwallau teipio canlynol yn yr adroddiad: dylai paragraff 20 ddarllen 2022-2023 ac nid 2021-2022 fel y nodwyd, dylai paragraff 21 gyfeirio at y Cabinet ac nid Is-bwyllgor Polisi ac Adnoddau'r Cabinet, fel y nodwyd.

Cyfeiriodd yr Aelodau at gam 4.5.4.50 ar dudalen 55 o'r adroddiad a oedd wedi'i gynnwys ym mhecyn yr agenda a gofynnwyd am ddiweddariad cynnydd ar fynediad corfforol i welliannau cyfleusterau pwyllgorau yng Nghanolfan Ddinesig Castell-nedd.

Nid oedd gan swyddogion yr wybodaeth y gofynnwyd amdani wrth law; bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu ag aelodau y tu allan i'r cyfarfod.

Holodd yr Aelodau a oedd y cynnig cyfweliad gwarantedig i unrhyw berson y mae cau Gwaith Dur TATA yn effeithio arnynt yn peryglu cydraddoldeb.

Dyweddodd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio wrth aelodau fod y cynnig gwarantedig o gyfweliad ar gyfer gweithwyr TATA neu'r rhai a oedd yn gweithio yn y gadwyn gyflenwi a oedd yn bodloni'r holl feini prawf hanfodol sy'n gysylltiedig â swydd wag.

Holodd yr aelodau a oedd Panel y Dinasyddion yn amrywiol ac yn gynrychioliadol o'r holl nodweddion gwarchoddedig yn y gymuned?

Yn dilyn ymgynghoriadau diweddar, cadarnhaodd swyddogion fod gwaith wedi'i gynllunio i sicrhau bod Panel y Dinasyddion yn cynrychioli pob cymuned yn y fwrdeistref sirol. Lle nodir bylchau, bydd recriwtio i'r panel yn cael ei dargedu yn unol â hynny. Bydd swyddogion yn dosbarthu sylwadau presennol y panel i'r aelodau, gyda gwybodaeth bellach yn cael ei darparu pan fydd ar gael.

Holodd yr aelodau a oedd data'n cael ei gadw mewn perthynas â nifer yr aelodau staff sy'n dysgu Cymraeg ac a oedd y ffigur hwn yn cynyddu neu'n gostwng, o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol.

Bydd swyddogion yn dosbarthu'r wybodaeth hon i aelodau y tu allan i'r cyfarfod.

Cyfeiriodd yr aelodau at dudalen 13 paragraff 17 o'r adroddiad, ac roeddent yn falch bod effeithiau Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol wedi'u cynnwys yn yr adroddiad

Yn dilyn craffu, cefnogwyd yr argymhelliad gan y Cabinet.

5. **BLAENRAGLEN WAITH 2023/24**

Nodwyd y Flaenraglen Waith.

6. **EITEMAU BRYS**

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys ar agenda Craffu'r Cabinet.

Roedd un adroddiad preifat brys ar agenda'r Cabinet.

7. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD**

Penderfynwyd: bod y cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r eitem(au) ganlynol/canlynol yn unol ag Adran 100a (4) a (5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 a'r paragraffau eithriedig perthnasol o Ran 4 Atodlen 12a y Ddeddf uchod.

8. **CRAFFU EITEM/EITEMAU PREIFAT CYN PENDERFYNU**

Y Plaza Newydd

Yn dilyn craffu, cefnogwyd yr argymhelliad gan y Cabinet.

**Cynghorydd P.Rogers
CADEIRYDD**